CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 16.09.2016

Taith newydd

Mae hefyd yn ddechrau newydd sbon i 157 o ddisgyblion o flwyddyn 7 sy'n dechrau ar eu cyfnod yn Ysgol Bro Myrddin. Rwy'n siŵr y byddant yn ymgartrefu'n fuan iawn yn ein plith. Estynnwn yr un croeso i Miss Bethan Williams i'r adran Hanes, Mrs Rhian Rees-Thorne i'r adran Gymraeg, a Mr Emyr Rees i'r adran wyddoniaeth. Dymuniadau gorau i bawb.

"Côr On Tôr"

Ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd, teithiodd 44 o aelodau côr merched hŷn Ysgol Gyfun Bro Myrddin allan i Ypres, Gwlad Belg, i ganu yn seremoni'r Last Post ym Menin Gate. Roedd hi'n fraint ac yn anrhydedd i dderbyn y gwahoddiad hwn, oherwydd bod y seremoni yma'n rhan bwysig iawn o gofio'r holl filwyr a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ar ôl y daith hir a blinedig o Gaerfyrddin i Ypres, aethom i weld seremoni'r Last Post ar y nos Sul lle'r oedd band militaraidd wedi'i gwahodd i berfformio yno. Cynhelir y seremoni bob nos yn Ypres, gydag aelodau o'r pwyllgor sy'n gweithredu'r seremoni yn gwahodd amrywiol gorau ac ensemblau cerddorol i berfformio cerddoriaeth ar ôl i'r 'Last Post' gael ei chwarae.

Yn ystod yr ail ddiwrnod, cawsom ein tywys gan Dr Huw Griffiths ar daith hanesyddol o amgylch Ypres a'r cyffiniau. Dechreuodd y daith yn Amgueddfa Flanders Fields yn Ypres lle gwelir hanes y rhyfel

a ymladdwyd yn Flanders Fields. Diddorol oedd gallu gweld y gwisgoedd a'r arfau a ddefnyddiwyd yn ystod y rhyfel. Ar ôl hynny, aethom i Amgueddfa Hill 62, lle cawsom y profiad o gerdded drwy'r ffosydd a ddefnyddiwyd yn y rhyfel, a gweld sut y byddai milwr yn byw o ddydd i ddydd. Yn ystod y prynhawn, bûm yn ymweld â thair mynwent filwrol, dwy Brydeinig ac un Almaenig. Roedd hi'n ddiddorol gweld y gwahaniaeth rhwng y mynwentydd Prydeinig ac Almaenig. Roedd y fynwent Almaenig yn gosod naws dywyll oedd yn adlewyrchu galar, tra roedd y mynwentydd Prydeinig yn fwy golau drwy ddefnyddio cerrig beddau gwyn oedd yn adlewyrchu heddwch. Ar ôl siwrnai hir iawn yn ceisio dod o hyd i fynwent Artillary Woods, cyrhaeddom y fynwent er mwyn ymweld â bedd Elis Humphrey Evans, sef y bardd enwog Hedd Wyn. Wedi i rai o'r disgyblion gyflwyno detholiad o waith buddugol Hedd Wyn 'Yr Arwr' a'r cerddi coffa gan R.Williams Parry, cyflwynwyd torch gan yr ysgol a'i osod ar ei fedd. I gloi, fe ganodd y côr un darn o gerddoriaeth ar lan y bedd i gofio am Hedd Wyn a'r holl filwyr Cymreig a Phrydeinig a wnaeth frwydro dros ein gwlad.

Y noson honno, fe ganodd y côr yn seremoni'r Last Post. Roedd hyn yn brofiad gwefreiddiol, gan wybod ein bod ni'n rhan o seremoni hanesyddol bwysig. Wrth ganu, cafodd torch o babïau coch ei chyflwyno ym Menin Gate. Roedd y dorch wedi'i chreu gan y gof o Sir Gaerfyrddin, Andrew Rowe, ac fe gafodd y dorch ei chyflwyno gan y gof a'i fab, Iolo sydd yn ddisgybl ym Mro Myrddin. Wedi canu yn y seremoni, cawsom y cyfle i ganu o flaen cynulleidfa o ofaint ac o flaen cofeb oedd yn cynnwys pabïau wedi'u creu gan rai o ddisgyblion yr ysgol hon.

Hoffai'r disgyblion ddiolch i Mrs Meinir Richards a Mrs Nia Evans am eu hyfforddi, ac i Dr Huw Griffiths am y daith hanesyddol. Diolch hefyd i Mr Euryn Madoc-Jones am drefnu'r daith.

Adroddiad gan Sioned Beynon, Elin Wyn James a Elin Haf Jones.

Sgwad tîm rygbi merched Cymru o dan 18

Llongyfarchiadau mawr i Bethan Lewis blwyddyn 13eg ar gael ei dewis ar gyfer sgwad tîm rygbi merched Cymru. Pob lwc yn y gemau yn ystod y tymor gan ddechrau yn Vichy, Ffrainc.

Prif swyddogion 2016-2017

Llongyfarchiadau i Carwyn Bebb a Sioned Beynon ar gael eu hethol yn brif fachgen a phrif merch. Yn eu cynorthwyo bydd Greta Llyr, Elen Davies, Osian McAvoy a Cai Evans. Pob lwc iddynt yn eu rôl newydd.

Priodas ym mlwyddyn 9!

Dydd Gwener 8fed o Orffennaf teithiodd dau fws llawn o ddisgyblion blwyddyn 9 i Gapel y Priordy, Caerfyrddin ar gyfer achlysur arbennig iawn, sef ffug-briodas Mari Freeman a Dylan Richards, dau o ddisgyblion blwyddyn 9.

Trefnwyd y briodas fel rhan o'r cwrs Astudiaethau Crefyddol. Roedd y disgyblion i gyd wedi paratoi yn drylwyr ar gyfer y diwrnod mawr a phawb wedi gwisgo yn smart iawn.

Teithiodd y briodferch a'i thad i'r briodas yng nghamper fan Mr Mainwaring o'r Adran Gelf ac fe gafodd y gwesteion eu croesawu i'r capel gan y tywyswyr, Evan Burke a Tom Mc Carthy. Rhoddwyd y briodferch i ffwrdd gan Josh Davies, a chynorthwywyd y priodfab gan y gwas priodas Harry Williams-Potter. Cafodd y briodferch ei chynorthwyo gan res o forwynion, sef Sara James, Catrin Thomas, Gwennan Walters, Leah Thomas, Rachel John ac Archi Morgan. Darllenwyd yr emyn gan Celyn Yate, arweinwyd y weddi gan Ifan Rogers a chyhoeddwyd yr emynau gan Ffion Gibbon. Roedd Alaw Evans a Steffan yn cyfeilio a chafwyd eitem gerddorol gan Mali Hughes a Lowri Wyn Davies. Arweinwyd y gwasanaeth priodas gan y

parchedig Beti-Wyn James. Yn dilyn y gwasnaeth, aeth y gwesteion i westy'r Llwyn Iorwg ar gyfer y weldd briodas a thynnu mwy o luniau. Bu'r achlysur yn un cofiadwy iawn i bawb.

Mrs Blue a chystadleuaeth Rafftio Ewrop 2016: Tacen, Slovenia

Yn Mis Mai daeth Prydain Fawr yn bencampwyr Ewrop yng ngystadleuaeth tîm rafftio mewn dŵr gwyn! ac yn rhan o hyn i gyd roedd Mrs Nerys Blue ein hathrawes Addysg Gorfforol. Rhwng y 19eg a 21ain o Fai, 2016 brwydrodd tîm rafftio Prydain Fawr yn Slofenia i gynnal eu teitl fel pencampwyr Ewropiaidd ar ôl eu llwyddiant ym Mosnia a Herzegovina yn 2015. Roedd y rasys yn cynnwys; ras rhagbrofol sbrint amser, ras yn mynd benben a'i gilydd, slalom ac yn olaf ras dygnwch lawr yr afon. Dechreuodd tîm y merched mewn steil; gan gwblhau'r ras rhagbrofol sbrint gyda'r amser

cyflymaf ac ennill bob ras benben, yn y pen draw gan guro tîm Gweriniaeth Tsiec yn y rownd derfynol. Cynhaliwyd y ras slalom ar yr ail ddiwrnod, lle gorffennodd Prydain Fawr yn 4ydd. Gyda'r Deyrnas Unedig yn cwbwlhau 3 ras, i mewn i'r rownd derfynol sef ras dygnwch i lawr yr afon a dod yn 2ail, chwe phwynt y tu ôl i Rwsia. Rhoddodd y Deyrnas Unedig ei holl ymdrech i mewn i'r ras derfynol er mwyn ennill y wobr gyntaf. Gan eu bod wedi ennill maent nawr yn edrych ymlaen i gystadlu yn 2016 ym mhencampwriaethau'r byd yn Nubai ym mis Hydref.

Clwb Llythyru

Yn ystod y flwyddyn, bu Clwb Llythyru brwdfrydig Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn mwynhau anfon llythyron at Glwb Llythyru Ysgol Gyfun Bryntawe. Ar ddiwedd y tymor cafodd disgyblion y ddwy ysgol gyfle i gwrdd â'i gilydd am y tro cyntaf drwy gynnal sgwrs fideogynadledda! Mantais technoleg fodern! Cafwyd llawer o hwyl wrth i'r disgyblion gael y cyfle i ofyn ac ateb cwestiynau a dod i 'nabod ei gilydd ychydig yn well! Gobeithio'n fawr y gallwn gwrdd wyneb yn wyneb y tymor nesaf!

DIWRNOD JOIO BOIO 2016

Ar Ddydd Gwener yr 8fed o Orffennaf cynhaliodd Project4Cymraeg sef pwyllgor Cymreictod Chweched Dosbarth Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ddiwrnod arbennig - "Diwrnod Joio Boio". Roedd hi'n ddiwrnod bendigedig gyda'r ysgol gyfan allan ar y cae yn mwynhau'r haul, yn cicio'r bêl o'r smotyn, yn mwynhau losin, mocteils a ffrwythau ffres ac yn dawnsio i gerddoriaeth fyw Adwaith. Roedd 30 o'r 6ed wrthi'n cymdeithasu gyda'r disgyblion iau yn mwynhau diwedd tymor gyda'r staff a'r disgyblion i gyd yn Joio Boio.

Sioe Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

CHWARAE CUDDIO

gan Sara Lewis a Steffan Rhys Williams

Mae pawb rywdro wedi chwarae cuddio. Ond chwarae cuddio tra gwahanol yw hanfod y sioe gerdd gyfoes, gyffrous hon. Dyma stori gyfoes sy'n edrych ar sut mae pobl ifanc yn chwarae cuddio ar wefannau cymdeithasol, gan greu persona sy'n hawdd i guddio tu ôl iddo er mwyn bod yn feirniadol neu'n gas. Mae'r stori yn dilyn hanes dwy chwaer sy'n symud i ardal wahanol a gwelwn sut maent yn delio gyda grwpiau cymdeithasol amrywiol o fewn eu hysgol newydd. Cawn gwrdd â dioddefwyr a bwlis a dwy chwaer sy'n ceisio dianc rhag gefndir anodd a dechrau bywyd newydd. A fydd yn rhaid iddyn nhw guddio er mwyn eu diogelwch eu hunain? Dewch i fwynhau talent unigryw disgyblion Ysgol Gymraeg Bro Myrddin a gweld dros eich hunan pwy sy'n cyfri a phwy sy'n cwato. Fe fydd y sioe gerdd yn cael ei pherfformio ar nos Iau a nos Wener, Tachwedd 24 a 25.